# Cyngor Adnewyddu'r Economi

## Y diweddaraf am y prosiect Swyddi Gwell yn nes at Adref

### Cyflwyniad

1. Yn ei gyfarfod ym mis Hydref, cymeradwyodd y Cyngor yr egwyddorion a nodwyd gan ymgyrch TUC Cymru, 'Swyddi Gwell yn nes at Adref'.

2. Cafodd gweithgor ei gomisiynu gan y Gweinidog Cyllid i archwilio'r cynnig a darparu cyngor ac argymhellion. Mae'r gweithgor wedi cyfarfod ddwywaith: ar 2 Rhagfyr a 22 Ionawr.

3. Mae sawl llinyn yn perthyn i'r gwaith hwn, sy'n gofyn am ddull llywodraeth gyfan o weithredu:
    - Nodi contractau addas a strategaeth gaffael;
    - Diffinio 'dan anfantais';
    - Opsiynau o ran trefnu canolfannau cyflogaeth; a
    - Gofynion canolfannau cyflogaeth cyn cael contractau.

4. Mae'r papur hwn yn nodi'r cynnydd a wnaed o safbwynt cyflawni gwaith yn ymwneud â'r llinynnau.

### Nodi contractau addas a strategaeth gaffael

5. Mae nodi contractau addas yn darparu'r cerrig milltir allweddol ar gyfer sefydlu'r canolfannau cyflogaeth ac yn llywio anghenion y sefydliadau o ran capasiti a sgiliau.

6. Mae'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol wedi nodi, dros dro, ddau gontract i'w cyflawni erbyn 2017: y naill ar gyfer gwisgoedd swyddogol a'r llall ar gyfer lloriau. Mae'r amserlen hon yn caniatáu digon o amser i'r canolfannau cyflogaeth gael eu sefydlu ac iddynt fod yn barod i gyflawni'r contractau.

7. Bydd amserlen a chynllun gweithredu cychwynnol ar gyfer cyflawni'r contractau hyn yn cael eu cyflwyno gan y Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol i'r gweithgor erbyn 5 Chwefror.

8. Yn ogystal, mae swyddogion ym maes yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn archwilio'r posibilrwydd y gallai Ardal Fenter Glynebwy gynnig ateb buan i hybu'r cysyniad o ganolfannau cyflogaeth, a eglurir yn Swyddi Gwell yn nes at Adref.

9. Bydd Gwerth Cymru yn gweithio gyda'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol a swyddogion ym maes yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i ddatblygu strategaeth gaffael erbyn mis Mawrth, gan ystyried llinynnau eraill y prosiect ac ystyried y canlynol hefyd:
    - Hyd y contractau;
    - Y gofynion o ran cymhwysedd cyflenwyr;

- Yr effaith ar rannau eraill o'r sylfaen gyflenwi yng Nghymru;
- Ymrwymiad y sector cyhoeddus yng Nghymru; a
- Gallu cystadleuwyr.

**Diffinio 'dan anfantais'**

10. Mae'r ymgyrch yn ceisio manteisio ar ddatblygiadau newydd yn Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015, sy'n golygu bod modd i gontractau gael eu cadw ar gyfer sefydliadau y mae 30% neu fwy o'u gweithlu yn weithwyr sydd dan anfantais.

11. Mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi mabwysiadu a chyhoeddi cronicliadau sy'n cynorthwyo i roi'r Rheoliadau Contractau Cyhoeddus ar waith yn ymarferol.

12. O safbwynt cadw contractau, mae Cronicliad 36 yn datgan mai ystyr 'gweithiwr dan anfantais' yw unrhyw berson:
(a) nad yw wedi bod mewn swydd reolaidd gyda thâl am y chwe mis blaenorol; neu
(b) sydd rhwng 15 a 24 oed; neu
(c) nad yw wedi ennill cymhwyster addysgol neu alwedigaethol uwchradd uwch (Lefel 3 y Dosbarthiad Safonol Rhyngwladol ar gyfer Addysg) neu sydd wedi cwblhau ei addysg lawn amser yn ystod y ddwy flynedd flaenorol ac nad yw wedi cael ei swydd reolaidd gyntaf gyda thâl o'r blaen; neu
(ch) sydd dros 50 oed; neu
(d) sy'n byw fel oedolyn sengl sydd ag un neu ragor o ddibynyddion; neu
(dd) sy'n gweithio mewn sector neu broffesiwn mewn Aelod-wladwriaeth lle mae'r anghydbwysedd rhwng y rhywiau o leiaf 25% yn uwch na'r cyfartaledd ar gyfer anghydbwysedd rhwng y rhywiau ar draws pob sector economaidd yn yr Aelod-wladwriaeth honno, ac sy'n perthyn i'r rhyw honno nas cynrychiolir yn ddigonol; neu
(e) sy'n aelod o leiafrif ethnig mewn Aelod-wladwriaeth ac y mae angen datblygu ei broffil o ran sgiliau ieithyddol, hyfforddiant galwedigaethol neu brofiad gwaith er mwyn gwella ei obaith o gael swydd sefydlog.

13. Y gofyniad allweddol y mae angen ei fodloni cyn defnyddio'r ddarpariaeth yw mai prif nod y cyflenwyr yw integreiddio'n gymdeithasol ac yn broffesiynol bobl anabl neu bobl sydd dan anfantais ac, os yw hynny'n wir, bod o leiaf 30% o'u gweithlu yn weithwyr sydd dan anfantais. Os caiff y ddau faen prawf hyn eu bodloni, gellir cadw'r contractau ar gyfer cyflenwyr, gweithdai gwarchodol neu gynlluniau cyflogaeth warchodol sy'n bodloni'r gofynion.

14. Mae'n bwysig nodi na all contractau gael eu cadw'n uniongyrchol ar gyfer y canolfannau cyflogaeth arfaethedig, ond y byddant yn destun cystadleuaeth sy'n agored i unrhyw sefydliad sy'n bodloni'r gofynion ac sy'n bodloni'r meini prawf angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r contractau.

15. Bu'r gweithgor yn ystyried y mater hwn ar 22 Ionawr. Bydd gwaith pellach yn cael ei gwblhau erbyn 5 Chwefror er mwyn egluro sut y gallai cronicliadau'r Comisiwn Ewropeaidd gael eu hategu gan feini prawf penodol sy'n gysylltiedig â'r agenda Trechu Tlodi a'r polisi caffael sy'n ymwneud â budd i'r gymuned.

16. Os bydd busnes cymwys yn ennill contract a gadwyd, mae'n bosibl y gallai cyfran y gweithlu sydd dan anfantais ddisgyn islaw 30% o ganlyniad i'r ffaith bod swyddi gyda thâl yn cael eu darparu. Nid oes eglurder llwyr ynghylch sut y byddai newid o'r fath wrth gyflawni contract yn cael ei reoli, ac mae'r Tîm Gwasanaethau Cyfreithiol wedi'i gomisiynu i ddarparu cyngor ynghylch y mater.

**Opsiynau o ran trefnu canolfannau cyflogaeth**

17. Mae Canolfan Cydweithredol Cymru wedi bod yn gweithio gyda swyddogion ym maes yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth i ddatblygu papur sy'n egluro'r opsiynau o ran modelau busnes ar gyfer darparu'r canolfannau cyflogaeth.

18. Cafodd y papur ei ystyried yng nghyfarfod y gweithgor ar 22 Ionawr. Bu'r gweithgor yn ystyried y gwahanol fodelau ac, yn benodol, y prif fanteision sy'n gysylltiedig â chreu sefydliad annibynnol, ar ffurf menter gymdeithasol neu gwmni cydweithredol, sy'n cynnwys y canlynol:
    - Cyfle i gael arian na fyddai ar gael fel arall;
    - Cyfle i fabwysiadu dull gweithredu sy'n cynnwys mwy nag un rhanddeiliad yn wirioneddol wrth greu'r sefydliad a'i reoli'n strategol wedyn;
    - Cyfle i ddefnyddio unrhyw elw a wneir i'w ailfuddsoddi yn y busnes er mwyn hybu nodau cymdeithasol, neu i sefydlu is-fusnesau cymdeithasol a all barhau i helpu i adfywio'r ardaloedd targed.

19. Er mwyn cael yr effaith fwyaf posibl ar drechu tlodi a datblygu sgiliau, rhaid i'r canolfannau cyflogaeth arfaethedig fod yn y lleoliad mwyaf priodol. Mae swyddogion ym maes Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes ac ym maes Trechu Tlodi yn adolygu data ynghylch tlodi a sgiliau er mwyn llywio'r dull gweithredu hwn, a byddant yn dosbarthu eu canfyddiadau i'r gweithgor erbyn 5 Chwefror.

20. Bydd yr opsiynau o ran modelau trefnu'n cael eu dadansoddi, ac yn dilyn cytundeb gan y gweithgor bydd cynnig yn cael ei gyflwyno i Weinidogion ynghylch y ffordd ymlaen a gaiff ei ffafrio.

21. Bydd angen i'r opsiwn a gaiff ei ffafrio gael ei ategu gan gynllun busnes cadarn er mwyn sicrhau bod y canolfannau cyflogaeth yn gallu ehangu eu busnes i osgoi dibynnu'n ormodol ar gontractau'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol.

**Gofynion canolfannau cyflogaeth cyn cael contractau**

22. Bydd angen gwneud llawer o waith cynllunio i sicrhau y byddai'r canolfannau cyflogaeth yn barod ar gyfer dyddiad cychwyn y contractau.

23. Ar ôl cytuno ar y model busnes a gaiff ei ffafrio a'i statws cyfreithiol, bydd angen ystyried y canlynol:
- Penodi tîm rheoli;
- Datblygu cynllun busnes;
- Pennu gofynion o ran recriwtio;
- Darparu rhaglen hyfforddiant a chyflogaeth;
- Pennu gofynion o ran cyllid cyn, yn ystod ac ar ôl contractau'r Gwasanaeth Caffael Cenedlaethol;
- Darparu cymorth datblygu busnes er mwyn rhoi'r gallu i ganolfannau cyflogaeth dendro am gontractau.

24. Mae Gwerth Cymru a swyddogion ym maes yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ac ym maes Sgiliau, Addysg Uwch a Dysgu Gydol Oes wedi ystyried y materion hyn yn gynnar, a byddant yn gweithio gyda TUC Cymru a chydweithwyr yn y gweithgor i ddatblygu cynlluniau ar gyfer ffordd ymlaen.

**Rheoli'r prosiect**

25. O gofio natur gymhleth yr ymgyrch a'r angen i gydgysylltu gweithgarwch ar draws adrannau'r Llywodraeth, mae Gwerth Cymru yn awyddus i benodi rheolwr prosiect i gynnal y momentwm cynnar a hybu'r camau gweithredu y cytunodd y gweithgor arnynt ar 22 Ionawr.

**Y camau nesaf**

26. Bydd y camau gweithredu o gyfarfod diwethaf y gweithgor yn cael eu cwblhau erbyn 5 Chwefror ac yn cael eu dosbarthu'n barod ar gyfer cyfarfod nesaf y gweithgor, a gynhelir cyn diwedd mis Chwefror.